YR ADRAN
YNNI A
NEWID HINSAWDD

David Kidney AS

Is-ysgrifennydd Seneddol

Drwy e-bost: nuria.zolle@nea.org.uk

Yr Adran Ynni a

Newid Hinsawdd

3 Whitehall Place
Llundain SW1A 2AW
Ff: 0300 060 4000
www.decc.gov.uk

10 Rhagfyr 2009

Annwyl Nuria,

Diolch am eich e-bost dyddiedig 3 Tachwedd at y Gwir Anrhydeddus Ed Miliband ar ran Cynghrair Grŵp Llywio Siarter Tlodi Tanwydd Cymru ynglŷn â siarter tlodi tanwydd gyntaf Cymru. Gan mai fi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y meysydd polisi perthnasol, rwyf i felly yn ateb eich gohebiaeth.

Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn parhau i weithio tuag at y nod o ddileu tlodi tanwydd ymhlith aelwydydd agored i niwed, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol, erbyn 2010, gyda'r nod cyffredinol na ddylai unrhyw aelwyd yn y DU fyw mewn tlodi tanwydd erbyn 2016 (2018 yng Nghymru). Amlinellir hyn yn Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU 2001.

Mae'n gyfnod arbennig o heriol i bawb ohonom sy'n ymroddedig i ddileu tlodi tanwydd. Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi data yn ddiweddar ar nifer gwirioneddol yr aelwydydd a oedd yn dioddef tlodi tanwydd yn 2007. Cadarnhaodd yr adroddiad hwn fod 4 miliwn o aelwydydd yn dioddef tlodi tanwydd yn y DU yn 2007 – tua 2 filiwn yn fwy nag yn 2004 pan oedd y ffigurau ar eu hisaf – a hanner miliwn yn fwy nag yn 2006. Mae 3.25 miliwn o'r rhain yn aelwydydd agored i niwed, sef tua hanner miliwn yn fwy ers 2006. Er gwaethaf y ffigurau heriol hyn, a achoswyd yn bennaf gan brisiau tanwydd sy'n codi a'r hinsawdd economaidd fyd-eang bresennol, mae'r Llywodraeth yn parhau i ymdrechu i ddileu tlodi tanwydd.

Mae'r siarter yn gofyn bod llywodraeth y DU yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ystyrlon â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â gweithredu cynlluniau a rhaglenni sydd eisoes yn bodoli a datblygu strategaethau neu fentrau ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn falch o

gadarnhau bod hyn yn rhywbeth sydd eisoes yn digwydd. Er enghraifft, yn ddiweddar rwyf wedi cadeirio cyfarfod rhyng-weinidogol gyda'm cymheiriaid o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â chydweithwyr o'r Trysorlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gydgysylltu syniadau a strategaethau cyfredol ynglŷn â mynd i'r afael â thlodi tanwydd o fewn pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig ac ar draws y Deyrnas Unedig, ac i ddysgu o arfer gorau. Mae swyddogion yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd hefyd wedi ymgysylltu â'u cymheiriaid yng Nghymru ynglŷn â'r cymalau Cynnal Prisiau Cymdeithasol yn y Bil Ynni a gyhoeddwyd yn araith y Frenhines.

Hoffwn eich sicrhau o'm parodrwydd i, a'r Llywodraeth, i gynnal ymgysylltiad llawn ac agored â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r materion pwysig hyn.

Nod Taliadau Tanwydd y Gaeaf yw helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy gynyddu incwm pobl hŷn, sef y ganran fwyaf o aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd. Rydym yn gwybod bod o leiaf un unigolyn 60 oed neu hŷn yn byw ym mwy na hanner yr holl aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd. Mae Taliadau Tanwydd y Gaeaf yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ac yn 2007 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) roeddent yn gyfrifol am godi tua 200,000 o aelwydydd o sefyllfa tlodi tanwydd yn y Deyrnas Unedig.

Fel y gwyddoch, mae tlodi tanwydd yn fater cymhleth, ac wrth ystyried yr hyn sy'n golygu bod aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd, un ffactor yn unig yw incwm isel. Nod Taliadau Tanwydd y Gaeaf yw rhoi sicrwydd i bobl hŷn eu bod yn gallu fforddio cadw'n gynnes yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd biliau gwresogi'n uwch. Mae pobl hŷn yn arbennig o debygol o deimlo effeithiau tywydd oer yn ystod misoedd y gaeaf, ac ymhlith yr henoed y ceir y cynnydd mwyaf mewn marwolaethau pob gaeaf. Er bod Taliadau Tanwydd y Gaeaf o fudd cyffredinol, mae angen y cymorth ariannol ar y rhan fwyaf o bobl sy'n derbyn y taliad ac maent yn ei werthfawrogi. Byddai sefydlu system o dargedu neu brawf modd ar gyfer Taliadau Tanwydd y Gaeaf yn gymhleth yn weinyddol o'i chymharu â'r system bresennol sy'n hawdd ei gweinyddu.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau agored i niwed sy'n hawlio budd-daliadau. O ran plant, sefydlodd y Llywodraeth dasglu a gyhoeddodd eu hadroddiad "Taking Up the Challenge" ar 12 Mehefin. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau y dylai gwasanaethau lleol eu cymryd i gynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau a chredydau treth. Mae'n cynnwys cyngor ac amrywiaeth o enghreifftiau ymarferol da. Gellir lawrlwytho "Taking Up the Challenge" o: http://www.dcsf.gov.uk/everychildmatters/_download/?id=6089

Rydym hefyd wedi symleiddio'r broses hawlio er mwyn ei gwneud yn haws i bensiynwyr hawlio eu budd-daliadau. Erbyn hyn, gellir cyflwyno hawliadau am Fudd-dâl Tai a Budd-dâl Treth y Cyngor a wneir dros y ffôn gyda'r adran Credyd Pensiwn ar 0800 99 1234, yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol heb fod angen llofnodi ffurflen hawlio. Rydym hefyd yn parhau i edrych ar ffyrdd o wneud gwelliannau pellach.

Bydd y Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalwyr yn parhau i annog pawb sy'n gymwys i hawlio eu budd-daliadau. Bydd yn parhau i fynd ati i gyfateb data er mwyn nodi'r rhai hynny sy'n gymwys i gael budd-daliadau ond nad ydynt yn eu derbyn ar hyn o bryd, cynnal ymweliadau â chwsmeriaid agored i niwed yn eu cartrefi, ymgyrchoedd marchnata a chyfryngau lleol penodol, proses hawlio seml a chydweithio agosach fyth â sefydliadau partner. Mae'r Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalwyr yn cynnal tua 13,000 o ymweliadau yr wythnos â chwsmeriaid agored i niwed yn eu cartrefi er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau a gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

Fel rhan o'r pecyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES), cynigir cyfle i gleientiaid gwblhau Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau (BEC) i ganfod pa un a ydynt yn gymwys i hawlio budd-dâl nad ydynt yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i weithio'n agos â'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod safbwynt Cymru yn cael ei ystyried mewn trafodaethau ar faterion sy'n ymwneud â'r DU gyfan, megis annog cymaint â phosib o bobl i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Gobeithiaf fod hyn yn ddefnyddiol. Mae croeso i chi gadw mewn cysylltiad yn y dyfodol.

Yn gywir,

DAVID KIDNEY